# COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 19.07.23

PRESENNOL – Gwyn Davies, Carwyn Edwards (Cadeirydd), Gwynfryn Jones, Llyr Jones, Alun Jones, Sioned Jones, Rhian Ellis (Clerc), Awel Hughes (8.10)

Cydymdeimlwyd gyda Glennydd Evans yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yn ddiweddar.

1.YMDDIHEURIADAU – DIM

2. DATGAN BUDDIANNAU – Gwyn yn datgan buddiant yn rhif 9 a ddim yn cymeryd rhan yn yn y drafodaeth.

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir gan Alun ac eilwyd gan Glennydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – Hydrent dwr yn Dinmael – Gofyn I'r frigid dan edrych I fewn I hyn.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 29.05.23 £22,771.01

Gwariant hyd yma Nant Fach - £0

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Sioned ac eilwyd gan Gwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. G Edwards torri coed yn y fynwent | s19 | £780.00 |
| 2. Iona Edwards Awdit Mewnol | s111 | £60.00 |
| 3. Zurich Insiwrans | s150 | £682.39 |
| 4. R D Ellis Paentio Safle Bws | s19 | £1350.00 |

7. NEUADD FACH - Y neuadd yn wag erbyn hyn, angen I'r Pwyllgor gael golwg ar y lleoliad

8.CAEAU CHWARAE -

Llangwm – Y parc chwarae wedi ei gwblhau a'r offer yn ei le

Dinmael – Angen gosod giat newydd I'r Parc, gofyn I Rheinallt Jones wneud y Gwaith fel nad oes cwn yn gallu mynd I fewn I'r Parc a hefyd trwsio y fainc.

Y Clerc I gysylltu gyda'r Cyngor Sir I ofyn am arwyddion dim ysmygu a dim cwn I'w osod o gwmpas y parc.

9. CYNLLUNIO – Mast Metreorelegol Mwdwl Eithin Corwen, Dim gwrthwynebiad.

10. GOHEBIAETH –

1. LLythyr gan Mr Levens perchennog yr Eglwys yn gofynn am gyfarfod, y clerc I ofyn iddo ddod I'r Cyfarfod Cymuned nesaf.

11. UNRHYW FATER ARALL

1. AWDIT MEWNOL – Cymeradwywyd yr Awdit Mewnol gan Glennydd ac eilwyd gan Awel a phawb yn gytun.

2. AWDIT LLAWN – Cymerdwywyd yr Awdit Llawn gan Gwyn ac eilwyd gan Gwynfryn a phawb yn gytun

3. Cafwyd wybod bod adolygiad ar yr Orsaf Dan yn Cerrigydrudion a bod perygl o israddio y gwasanaeth – Mae'r Cynghorwyr I gyd yn gefnogol iawn I'r Gwasanaeth yn Cerrig.

4. Cwt Hers – Penderfynwyd codi rhent o £50 ar denantiaid y Cwt Hers

5. Dywedodd Cyng Gwennol Ellis bod Cyng Elwyn Edwards wedi bod mewn cysylltiad ynghlyn a'r ffordd o Frongoch I Gerrigydrudion. Mae yna gonsyrn fod yna amryw o gerbydau trwm yn trafeilio ar hyd y ffordd a hithau yn gul iawn mewn mannau. Mi fydd Cyng Gwennol Ellis yn siarad gyda'r Sir ynghlyn a hyn.

6. Y Clerc I gysylltu gyda Caerdydd ynglyn a'r coed wrth ymyl dde I Jet, mae hi yn anodd a pheryglus iawn I ymuno a'r ffordd o Jet.

7. Y Clerc I ofyn I Gaerdydd a yw yn bosib lledu y pafin (llwybr) o ymyll y safle bws tuag at y Capel gan I fod yn beryglus iawn pan mae pobl yn cerdded gan fod gwynt y cerbydau yn tynnu bobl wrth gerdded.

.

12. EITEMAU I'R PWYLLGOR NESA'. –

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

27ain Medi 2023